5. Y Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith

Datblygiadau yn y Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith yn 2006-2007

Bu llawer o egni a diddordeb o fewn y sector hwn ar draws ystod ehangach o agweddau ar ADCDF o gaffael, i gynllunio colegau-cyfan i ystadau. Mae sawl cynllun i gyflawni gwaith yn y sector hwn wedi cael cyllid gan y panel ADCDF ar gyfer eleni. Mae'r Hyrwyddwr ADCDF wedi cyfarfod â staff o fewn y sector AB a chrëwyd cysylltiadau gyda gwaith ADCDF sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn colegau (prosiect Ymlaen Ceredigion yng Ngholeg Ceredigion) ac mae'r cynlluniau cyfredol yn adeiladu ar yr arbenigedd a fu'n datblygu hyd yma.

Llythyr cynllunio strategol, adroddiad ADCDF ac adnoddau (Camau gweithredu 5.1.4, 5.3.3, 5.3.2)

Cynhwysodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gais yn y llythyr cynllunio strategol blynyddol i sefydliadau addysg bellach (SABau) iddynt lunio adroddiad am ADCDF o fewn y coleg. Mae'r adroddiadau hyn bellach wedi'u cydgasglu ac fe'u defnyddir fel llinell sylfaen i asesu datblygiadau, anghenion a llwyddiannau o fewn y sector. Ar ôl trafod eu hadroddiadau gyda'r colegau bydd adnoddau ychwanegol ac esiamplau o arferion da yn cael eu cynhyrchu i'w rhannu'n ôl gyda'r sector. Mae bwriad i ailadrodd y cais hwn i golegau yn 2008.

Archwiliad o Ddysgu Seiliedig ar Waith (Cam gweithredu 5.2.2)

Gofynnwyd i bob darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) adrodd am ei gamau gweithredu ADCDF fel rhan o'r gofynion adrodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn wedi dangos arwydd clir o angen yn y sector. Mae prosiect a noddir yn awr yn mynd rhagddo i roi sylw i anghenion y sector hwn ac i ddarparu iddynt ddeunyddiau, cefnogaeth ac arferion gorau i'w symud ymlaen i roi sylw i ADCDF o fewn eu sefydliadau ac wrth gyflwyno eu hyfforddiant.

Cynadleddau (Cam gweithredu 5.2.3)

Mae'r Hyrwyddwr ADCDF wedi siarad mewn llawer o gynadleddau a chyfarfodydd yn y sector eleni, o gynhadledd genedlaethol Fforwm yng Nghaerdydd i ddyddiau hyfforddiant staff colegau unigol ac mewn cyfarfodydd prosiect mewn colegau.

Cynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer Ebrill 2008 - (Cam gweithredu 5.1.3)

Yn dilyn datblygu adnoddau ychwanegol i golegau (a grybwyllwyd yn 5.1.4 uchod) mae cynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer Ebrill 2008. Fe'i bwriedir ar gyfer uwch staff colegau i gynyddu proffil ADCDF ac i gynnig hyfforddiant a gweithdai ychwanegol ar feysydd allweddol ar gyfer cyflawni.

Cysylltiadau ychwanegol

Yn dilyn cais prosiect peilot oddi wrth banel ADCDF, llwyddodd Ymlaen Ceredigion i ganfod cyllid i gynnal eu prosiect i blannu ADCDF yng Ngholeg Ceredigion. Fel rhan o'r datblygiadau bydd prosiect Sus Gil yn ymdrechu i gefnogi datblygiadau cenedlaethol gydag adborth oddi wrth eu prosiect a, thrwy gyfrwng y cysylltiadau hyn, bydd yr arferion da yn cael eu lledaenu i golegau AB eraill dros y tair blynedd nesaf.

Strategaethau Caffael Cynaliadwy (Cam gweithredu 5.3.1)

Dyrannwyd cyllid i Gonsortiwm Caffael Addysg Bellach Cymru (CCABC) oddi wrth banel ADCDF i gynnal cynllun sy'n ceisio llunio strategaethau caffael cynaliadwy i bob coleg. Bydd cyfuniad o weithdai, adnoddau a chymorth cefnogi wyneb wrth wyneb yn sicrhau bod polisïau, ac arferion yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd caffael o fewn y colegau.